



## Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Tir Einon**

**Llwynhendy  
Llanelli  
SA14 9DF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

21/02/2024

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.**

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

## Tir Einon

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Caerfyrddin
Lleodd cofrestredig	8
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	27/07/2022
Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael gwasanaeth o ansawdd uchel dan arweiniad rheolwr ymroddedig ac arloesol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol arfaethedig ar hyn o bryd wrthi'n cyflawni proses glirio AGC. Mae'r Unigolyn Cyfrifol arfaethedig yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda drwy ddulliau archwilio ansawdd ac ymweliadau Rheoliad 73.

Mae anghenion iechyd a llesiant y bobl yn ganolbwynt i'r rhai hynny sy'n gweithio yn y gwasanaeth.

Mae'r cofnodion gofal a chymorth yn rhoi ymdeimlad gwirioneddol o'r unigolyn, ei anghenion unigol a'r hyn sy'n bwysig iddo. Mae'r perthnasau a'r gweithwyr proffesiynol yn canmol Tir Einon yn fawr.

Mae'r gwasanaeth mewn cyflwr da â gwelliannau parhaus yn cael eu gwneud. Cymerir camau trylwyr i sicrhau bod yr amgylchedd wedi paratoi ac yn barod i ddiwallu anghenion unigol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth cyn iddynt gael eu derbyn er mwyn cael gofal seibiant. Mae angen i'r broses o wasanaethu cyfarpar diffodd tân fod yn fwy cadarn.

## Llesiant

Caiff dewisiadau a barn y bobl eu cydnabod. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys gymaint ag y gallant o wybod eu hanghenion cymhleth, mewn penderfyniadau o ddydd i ddydd sy'n effeithio arnynt gan gynnwys eu prydau bwyd, eu gweithgareddau a'u gofal. Mae'r staff yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau cyfathrebu yn unol ag anghenion y person. Ceisir barn y bobl a'u cynrychiolwyr fel rhan o ymweliadau Rheoliad 73 ac wrth gynllunio ac adolygu eu hanghenion gofal. Mae cofnodion gofal yn darparu gwybodaeth fanwl am y person, ei anghenion gofal a chymorth ac yn rhoi ymdeimlad gwirioneddol o'r unigolyn.

Mae'r bobl yn gwneud pethau sydd o bwys iddynt. Mae'r unigolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a hobiau sy'n bwysig iddynt. Caiff gweithgareddau eu cynllunio â'r person yn unol â'i anghenion a'i ddewisiadau.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag y risg o niwed a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn ymwybodol o anghenion a gofynion penodol yr unigolion sy'n aros yng nghartref Tir Einon. Mae'r staff gofal yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn y bobl rhag niwed a chânt eu cefnogi gan bolisiau a gweithdrefnau. Mae'r gweithdrefnau recriwtio a dethol yn gadarn. Mae'r gwasanaeth yn gweithio mewn ffordd ragweithiol â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn sicrhau bod y bobl yn cadw mor iach â phosibl. Mae'r tîm o staff yn cael hyfforddiant gorfodol ac arbenigol er mwyn sicrhau y gallant ddiwallu anghenion unigol a chymhleth y bobl.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael safon uchel o ofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn diwallu eu hanghenion unigol, sy'n aml yn rhai cymhleth. Mae'r staff yn wybodus iawn ac yn angerddol am gefnogi'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r rhyngweithio rhwng y gweithwyr gofal a'r bobl yn gyfeillgar iawn ac yn barchus. Mae'r gweithwyr gofal yn effeithiol iawn wrth ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau cyfathrebu yn unol ag anghenion y bobl. Mae'r technegau hyn wedi'u manylu'n glir yng nghynlluniau gofal a chymorth y bobl.

Cynhelir amrywiaeth o weithgareddau un i un a gweithgareddau grŵp yn y gwasanaeth a'r gymuned. Mae manylion am ddiddordebau'r bobl a'u dewisiadau o ran gweithgareddau wedi'u dogfennu'n dda. Mae'r rhain yn cynnwys y cyfarpar neu'r deunyddiau sydd eu hangen e.e. iPad, gemau, celf a chrefft, a ph'un a oes gofynion arbennig eraill er mwyn i'r person gael y gorau o'r gweithgareddau.

Mae'r cofnodion gofal yn fanwl iawn, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn ogystal ag asesiadau risg cysylltiedig yn barod ar gyfer pob ymweliad seibiant. Mae'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal. Mae unrhyw newidiadau i anghenion yr unigolyn hefyd yn cael eu cyfathrebu fel rhan o gyfarfodydd trosglwyddo'r staff.

Dywedodd y perthynas faint roedd yn gwerthfawrogi'r gwaith rhagorol y mae'r gwasanaeth yn ei wneud a'r effaith gadarnhaol y mae'n ei gael ar ei anwylyd ac arnyn nhw. Dywedodd, *"[X] has settled well, and looks forward to his respite stays, he goes off with his little case, and seems to enjoy the break away. It's a little break for him and also for us. Tir Einon is a God send to us as a family."*

Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r bobl sy'n aros yng nghartref Tir Einon yn canmol y gofal a'r cymorth a ddarperir. Gwnaethant ddweud wrthym; *"all care that is provided is of an exceptionally high standard, all individual needs are catered for, all have their own care plans and risk assessments are ready prior to admission so that [manager] and her staff can ensure that they are fully aware of needs and can anticipate any concerns"* and I am extremely happy with the service they offer to my service user. *My service user smiles when she goes there".*

## Yr Amgylchedd

Ar y cyfan, mae trefniadau ar waith i leihau'r risg i iechyd a diogelwch y bobl gymaint â phosibl. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad wedi'u teiwra i'r unigolyn ac ar gael yn hawdd mewn argyfwng. Mae angen i'r broses o wasanaethu cyfarpar diffodd tân fod yn fwy cadarn am fod rhai diffoddwyr tân heb gael eu gwasanaethu o fewn yr amserlenni gofynnol. Aeth y rheolwr i'r afael â hyn. Caiff sylweddau sy'n beryglus i iechyd eu storio'n ddiogel. Mae'r ardaloedd cymunedol, ystafelloedd personol y bobl a'r allanfeydd argyfwng yn daclus ac nid oes unrhyw beryglon. Mae mesurau atal a rheoli heintiau ar waith a chaiff y rhain eu cefnogi gan bolisiau a gweithdrefnau sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r gwasanaeth yn lân, mewn cyflwr da ac nid oes unrhyw arogleuon drwg.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Cyn derbyn pob unigolyn mae taflen wybodaeth ar gyfer paratoi am seibiant. Caiff ystafell pob person ei baratoi'n ofalus cyn iddo gael ei dderbyn yn unol â'i anghenion. Ceir gwared ar ddodrefn neu cânt eu symud yn unol â dewisiadau, anghenion a heriau. Pan fydd angen, mae llenni a deunyddiau ar gael yn hawdd yn ystafelloedd y bobl er mwyn eu diogelu rhag anaf. Mae taflen baratoi yn cael ei chwblhau ar gyfer pob person sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae hyn yn rhoi gwybod i'r staff beth yw'r anghenion a'r gofynion unigol ar gyfer eu hystafell.

Mae'r gerddi diogel yn rhoi'r cyfle i'r bobl eu defnyddio i fwynhau ac i ymlacio. Mae'r cyfarpar symud a chodi gan gynnwys traciau nenfwd ar gael yn hawdd i gefnogi'r bobl ac mae'r rhain yn cael eu gwasanaethu o fewn yr amserlenni gofynnol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu clir ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol arfaethedig yn cynnal ymweliadau Rheoliad 73 â'r gwasanaeth yn unol â'r amserlenni gofynnol. Mae AGC wedi cael copïau o adroddiadau sy'n dangos ei bod yn siarad â'r bobl, eu cynrychiolwyr a'r staff fel rhan o'i hymweliadau â'r gwasanaeth. Mae'r rheolwyr yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau monitro ac archwiliadau. Caiff y camau sy'n deillio o'r archwiliadau hyn eu rhoi ar waith a'u hadolygu'n rheolaidd.

Mae'r rheolwr yn angerddol am ei rôl ac yn arloesol yn ei hymagwedd. Mae'n teimlo ei bod yn cael ei chefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol arfaethedig sy'n cysylltu â hi'n rheolaidd ac yn ymweld â'r gwasanaeth yn aml. Mae'r rheolwr hefyd yn cael cymorth gan y tîm o staff sy'n hyrwyddo safonau uchel ac ethos y gwasanaeth. Dywedodd y staff wrthym *"It's not the same here every day, even when we have a bad day, it is such a worthwhile job", "It's a very rewarding place to work, [manager] is something else!"* a *"We are a really good team with a great manager"*. Mae'r cyfarfodydd trosglwyddo staff yn rhoi'r cyfle i'r holl staff drafod y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac i sicrhau bod unrhyw newidiadau i'w cynlluniau gofal a chymorth yn cael eu cyfathrebu. Cynhelir cyfarfod pellach i gynnig y cyfle i'r staff fyfyrion ar eu shifft a siarad amdano. Dywedodd un o'r gweithwyr gofal wrthym *"We communicate well together as a staff team. We have set up a culture where all of us need to communicate well and learn in a safe environment"*

Dywedodd aelod o deulu wrthym *"The staff at Tir Einon are fabulous with X and have made him and ourselves as a family feel very welcome. Everyone is very accommodating and approachable when there are questions to be asked about X's stay"*.

Mae'r gweithwyr proffesiynol yn canmol arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth drwy ddweud *"From my perspective [manager] has always been an excellent leader and manager, she has been accommodating and considerate to requests and emergencies"* a *"The service that is provided by [manager] and her support staff is absolutely second to none. [Manager] in particular ensures that she is able to arrange the admissions so the person can get an appropriate level of care and support for their needs"*

Mae pob aelod o'r staff yn cael cyfnod sefydlu cynhwysfawr i'r gwasanaeth. Mae amrywiaeth o hyfforddiant gorfodol ac arbenigol sy'n galluogi gweithwyr gofal i gefnogi'r bobl sy'n byw gydag anghenion cymhleth. Dywedodd y staff wrthym am yr amrywiaeth o hyfforddiant y maent wedi'u cael a manteision hynny ar y bobl sy'n cael cymorth ganddynt. Mae matrices hyfforddiant a cofnodion gofal y gwasanaeth yn cadarnhau hyn. Mae'r holl staff y siaradwyd â nhw yn dangos dealltwriaeth glir o'u rôl yn diogelu unigolion. Mae cofnodion recriwtio yn cynnwys yr holl wybodaeth a'r gwiriadau gofynnol. Mae rhai bylchau yng nghofnodion goruchwyllo ac arfarnu'r staff. Trafodwyd hyn â'r rheolwr a rhoddwyd sicrwydd yr eir i'r afael â hyn.

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu'n unol â'i Ddatganiad o Ddiben a chaiff hysbysiadau ar-lein eu cyflwyno i AGC yn unol â'r gofynion.

### Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
<b>Newydd</b>	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
<b>Adolygwyd</b>	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
<b>Heb Gyflawni</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
<b>Cyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

### Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.



### Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

## **A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

**Dyddiad Cyhoeddi 23/04/2024**